



07/09/20

Rydym wedi diweddarau ein canllawiau i rieni ar yr hyn ddylent ei wneud os oes gan eu plentyn symptomau COVID-19 neu os oes angen i'w plentyn hunanynysu:

Ni ddylech, dan unrhyw amgylchiadau, anfon eich plentyn i'r ysgol:

- os yw'n teimlo'n sâl, gydag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel, golli blas neu arogl) neu mae wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.
- os yw'n byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

Beth yw'r symptomau?

Gall symptomau arferol gynnwys:

- gwres uchel
- prinder anadl
- peswch
- colli blas neu arogl

- Os yw eich plentyn yn arddangos un neu fwy o'r symptomau uchod, bydd rhaid iddo fo / hi aros adra i hunan ynysu a threfnu prawf Covid cyn gynted â phosib. Bydd rhaid i frawd / chwaer y plentyn aros adref hefyd.
- Bydd rhaid i'ch plentyn aros adref am o leiaf 10 diwrnod ers i'r symptomau ddechrau neu os yw'r prawf yn negyddol, gall ddychwelyd i'r ysgol os yw ef / hi yn ddigon da i wneud hynny'n ddiogel.
- Os bydd unrhyw aelod o'r teulu yn arddangos y symptomau uchod, bydd angen i'ch plentyn aros adra am 14 diwrnod neu hyd nes bydd canlyniad y prawf yn negyddol.
- Bydd dull 'Olrhain a Phrofi' ar waith yn yr ysgol pe bai unrhyw achos o Covid-19
- Os bydd eich plentyn yn arddangos symptomau yn ystod y dydd, yna byddwn yn cysylltu â chi'n syth ac yn symud eich plentyn ystafell ynysu bwrpasol tan y bydd rhywun yn casglu eich plentyn.

Gall symptomau eraill gynnwys:

- trwyn yn rhedeg
- cur pen
- dolur gwddf
- teimlo'n sal yn gyffredinol

Gall coronafeirws achosi symptomau mwy difrifol mewn pobl sydd â systemau imiwneidd gwan, pobl hŷn, a'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor fel clefyd siwgr, canser a chlefyd cronig yr ysgyfaint.

Os yw eich plentyn yn mynd yn sâl neu angen hunanynysu, gallwch roi gwybod i ni am hyn drwy ffonio'r ysgol, neu drwy e-bostio GethinElisThomas@gwynedd.llyw.cymru.

I gael gwybodaeth am sut i wneud cais am brawf ar eich cyfer chi eich hun neu ar gyfer rhywun yn eich cartref sydd â symptomau gan gynnwys plant o dan 5 oed, ewch i wefan Llwyodraeth Cymru <https://llyw.cymru/gwneudcais-i-gael-prawf-coronafeirws>.

Os ydych chi neu eich plentyn angen cyngor meddygol, ffoniwch NHS 111 i gael cyngor neu ewch i'r wefan <https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy> neu ffoniwch eich Meddyg Teulu.

Yn gywir

Gethin E Thomas
Pennaeth